

## Cais i awdurdodi colli rhyddid

(adran 4A(3) a 16(2)(a) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005)

Gweithdrefn wedi'i hailwampio yn unol â Re X and Ors (Deprivation of Liberty) [2014] EWCOP 25 ac Re X and Ors (Deprivation of Liberty)( Number 2) Re [2014] EWCOP 37

At ddefnydd y swyddfa'n unig

Dyddiad derbyn

Rhif yr achos

Dyddiad cyhoeddi

Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y daflen canllawiau'n ofalus. Gallwch lawrlwytho ffurflenni a thafllenni o [hmctsformfinder.justice.gov.uk](http://hmctsformfinder.justice.gov.uk). Chwiliwch o dan y mathau sydd ar gael am 'Court of Protection'.

SÊL

Rhowch enw llawn yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

### 1. Datganiad am y rhesymau dros y brys

Unrhyw ffactorau a ddylai gael eu dwyn yn benodol i sylw'r llys (a'r ceisydd o dan ddyletswydd benodol i ddatgelu'n llawn ac yn ddiwyll i'r llys yr holl ffeithiau a materion a all ddylanwadu ar benderfyniad y llys).

## 2. Y Gorchymyn a geisir

Nodwch natur y gorchymyn rydych yn ei geisio a chysylltwch ddrafft.

Hyd y Gorchymyn a geisir

Os caiff ei ganiatáu, bydd mater colli rhyddid yn cael ei adolygu bob blwyddyn o leiaf gan y llys. Ydych chi o'r farn y bydd yr awdurdodiad yn gofyn am gyfnod adolygu byrrach?

Ydw  Nac ydw

Os ydych chi, rhowch fanylion

## 3. Eich manylion chi (y ceisydd)

Mr.  Mrs.  Miss  Ms.  Arall \_\_\_\_\_

Enw llawn

Swydd/teitl y swydd

Enw'r sefydliad

Cyfeiriad

Rhif DX

Ffôn

E-bost

#### 4. Caniatâd

Ydych chi'n gwneud cais am ganiatâd i wneud y cais hwn?

Ydw

#### 5. Yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

##### (a) Manylion Personol

Mr.    Mrs.    Miss    Ms.    Arall \_\_\_\_\_

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

Enw cyn  
priodi (os yw'n  
berthnasol)

Dyddiad geni

D	D	M	M	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---

Ydy'r unigolyn:

- Yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- Mewn perthynas ag unigolyn nad yw'n bartner priod nac yn bartner sifil iddo
- Wedi gwahanu
- Wedi ysgaru (rhowch y dyddiad)
- Yn Weddw (rhowch ddyddiad marwolaeth y partner priod neu'r partner sifil)
- Sengl

Cyfeiriad llawn gan gynnwys y cod post

Pa fath o lety yw hwn?

e.e. trefniant byw â chymorth, rhannu bywydau, cartref ei hun, arall

Enw'r awdurdod lleol neu gorff GIG sy'n gyfrifol am y lleoliad gofal

Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

- Yn agored i gael ei gadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Yn destun Gorchymyn Triniaeth yn y Gymuned
- Yn destun Gwarcheidiaeth

A fydd y colli rhyddid sy'n cael ei argymhell yn gwrthdaro ag unrhyw fesur neu driniaeth o'r fath?

Bydd  Na fydd

Os Bydd, rhwch fanylion

**(b) Penderfyniadau sydd eisoes wedi'u gwneud**

Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw perthnasol?

Ydy  Nac ydy

Os Ydy, rhwch fanylion a nodwch a yw'r penderfyniad a wnaed yn gwrthdaro â'r gorchymyn a geisir yn y cais hwn.

Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi gwneud atwrneiaeth arhosol?

Ydy  Nac ydy

Os Ydy, rhwch fanylion a nodwch a yw unrhyw benderfyniad(au) a wnaed gan yr atwrnai/atwrneiod yn gwrthdaro â'r gorchymyn a geisir yn y cais hwn.

Ydy'r llys wedi gwneud gorchymyn yn penodi dirprwy?

Ydy

Nac ydy

Os Ydy, rhowch fanylion y dirprwy(on) a nodwch a yw unrhyw benderfyniad(au) perthnasol a wnaed gan y dirprwy(on) yn gwrthdaro â'r gorchymyn a geisir yn y cais hwn

Ydych chi'n gwybod am unrhyw gais blaenorol i'r llys yng nghyswllt yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef?

Ydw

Nac ydw

Os Ydw, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.

Amgaeaf gopi o'r

penderfyniad ymlaen llaw

Atwrneiaeth Arhosol

gorchymyn llys perthnasol

## 6. Datganiad gwirionedd

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen gais hon yn wir.

**Llofnod**

\*Ceisydd (Cyfreithiwr y ceisydd)

**Enw**

**Dyddiad**

**Enw'r sefydliad**

**Safle neu swydd**

\* Dilëwch yr opsiynau mewn cromfachau nad ydynt yn berthnasol.

# **Atodiad A:** Tystiolaeth i gefnogi cais i awdurdodi colli rhyddid

(Adran 4A(3) a 16(2)(a) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005)

Rhowch enw llawn yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

## **1. Asesu galluedd**

- Cadarnhaf fod yr asesiad a gafodd ei gynnal o'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn nodi bod ganddo nam neu anhwylder sy'n effeithio ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd ac nad oes ganddo alluedd i gydsynio i'r mesurau sy'n cael eu cynnig a'r colli rhyddid a nodir yn y cais.
  
- Atodaf ffurflen COP3 neu dystiolaeth arall o alluedd

## **2. Asesiad Iechyd Meddwl – Dryswch meddwl / heb fod yn ei lawn bwyll**

- Cadarnhaf fod yr unigolyn wedi cael diagnosis meddygol o "heb fod yn ei lawn bwyll", ac atodaf dystiolaeth ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol.

Os nad yw eich asesiad o alluedd ar ffurflen COP3 wedi'i gwblhau gan ymarferydd meddygol cofrestredig, rhaid ichi hefyd atodi tystiolaeth ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig yn cynnwys diagnosis bod yr unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef wedi cael diagnosis o 'heb fod yn ei lawn bwyll'.

- Rwy'n cyflwyno'r asesiad iechyd meddwl a'r asesiad o alluedd fel un ddogfen
  
- COP3 wedi'i llenwi gan ymarferydd meddygol

### 3. Colli Rhyddid

Disgrifiwch yr amgylchiadau ffeithiol sy'n ymwneud â'r colli rhyddid ac, yn benodol, a yw'r unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef yn rhydd i adael ei fan preswyllo, a pha drefniadau goruchwyllo sydd ar waith.

(a) Ydy'r unigolyn yn rhydd i adael?

Ydy

Nac ydy

Os Nac ydy, rhowch fanylion os gwelwch yn dda

(b) Ydy'r unigolyn yn cael ei reoli a'i oruchwyllo'n gyson?

Ydy

Nac ydy

Os Ydy, rhowch fanylion

(c) Ydy'r unigolyn yn cael ei atal yn gorfforol?

Ydy

Nac ydy

(d) A oes tawelydd yn cael ei ddefnyddio?

Oes

Nac oes

Os ydych chi wedi ateb Ydy neu Oes i'r naill gwestiwn neu'r llall, rhowch fanylion

(e) Ydy'r unigolyn yn cael ei atal rhag cael cyswllt ag eraill?

Ydy

Nac ydy

Os Ydy, rhowch fanylion

(f) Pa gyfyngiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gosod neu pa fesurau sy'n cael eu defnyddio sy'n effeithio ar fynediad yr unigolyn i'r gymuned?

Rhowch fanylion

(g) A oes unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy'n berthnasol i golli rhyddid?

Oes

Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion



(h) Esboniwch os gwelwch yn dda pam y credir bod y colli rhyddid arfaethedig i'w briodoli i'r wladwriaeth (imputable to the state)

Yng ngoleuni'r atebion i'r cwestiynau dan y pennawd hwn, ydych chi o'r farn bod y trefniadau yn cynrychioli colli rhyddid?

Ydw       Nac ydw

#### 4. Datganiad lles pennaf

Nodwch pam mae'r trefniadau dan sylw yn y cais am awdurdodiad i golli rhyddid yn angenrheidiol er lles pennaf yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Nodwch pa niwed all ddigwydd neu beth fyddai'r risgiau pe na fyddai'r unigolyn yn colli ei ryddid. Rhowch fanylion beth fyddai'r niwed, pa mor ddifrifol fyddai a pha mor debygol ydyw y byddai'n codi.

Nodwch pam mae'r colli rhyddid yn gymesur

Esboniwch pam y tybir bod y risg o niwed a difrifoldeb y niwed yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau sy'n gyfystyr â cholli rhyddid.

Pa opsiynau llai cyfyngol sydd wedi cael eu hystyried neu eu defnyddio?

Esboniwch pam mai'r opsiwn rydych yn ei gynnig yw'r opsiwn lleiaf cyfyngol a'i fod er lles pennaf yr unigolyn.

Rwy'n atodi'r cynllun gofal

Rwy'n atodi copi o'r asesiad lles pennaf yn ymwneud â'r lleoliad

## 5. Gwybodaeth arall

Darparwch unrhyw wybodaeth arall a all fod yn berthnasol yn eich barn chi i helpu'r llys i ddod i benderfyniad.

## 6. Datganiad gwirionedd

Credaf fod y feithiau a nodir yn yr atodiad hwn yn wir.

**Llofnod**

**Enw**

**Dyddiad**

**Enw'r  
sefydliad**

**Safle neu  
swydd**

## **Atodiad B:** Ymgynghori â phobl sydd â diddordeb yn y cais i awdurdodi colli rhyddid

(Adran 4A(3) a 16(2)(a) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005)

Rhowch enw llawn yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

Mae adran 4(7) o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gosod dyletswydd ar rywun sy'n gwneud penderfyniad i ystyried barn pobl eraill sydd â diddordeb yn lles personol yr unigolyn.

Dylech ymgynghori â'r canlynol:

- (a)** unrhyw un sydd wedi derbyn atwrneiaeth arhosol a roddwyd gan yr unigolyn;
- (b)** unrhyw ddirprwy a benodwyd ar gyfer yr unigolyn gan y llys;

ac, os oes modd, gydag o leiaf tri unigolyn o'r categorïau canlynol:

- (c)** unrhyw un sydd wedi'i enwi gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef fel rhywun i ymgynghori ag ef ar faterion a godir gan y cais; a
- (d)** unrhyw un sy'n gysylltiedig â gofalu am yr unigolyn neu â diddordeb yn ei les

Rhaid ichi hysbysu'r bobl yr ymgynghorir â hwy am yr wybodaeth yn adran 40 o Gyfarwyddyd Ymarfer 10AA a darparu manylion, gan gynnwys atodi datganiadau.

**1. Pobl yr ymgynghorwyd â hwy ac sy'n dod o dan categorïau (a) i (d) uchod**

Enw	Cyfeiriad	Cysylltiad â'r unigolyn	Dyddiad Ymgynghori	Nodwch a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r trefniadau arfaethedig a darparu manylion unrhyw farn a fynegwyd. Os na chafwyd ymateb, rhwng 'dim'.

**2. Pobl nas ymgynghorwyd â hwy o dan categorïau (a) i (d) uchod**

Enw	Cyfeiriad	Y rheswm pam nad ymgynghorwyd â hwy	Cysylltiad â'r unigolyn

### 3. Gyfaill cyfreitha

Os oes raid, rhestrwch pwy fyddai'n barod i fod yn Gyfaill Cyfreitha

Enw	Cyfeiriad

### 4. Datganiad gwirionedd

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn yr atodiad hwn yn wir.

**Llofnod**

**Enw**

**Dyddiad**

**Enw'r  
sefydliad**

**Safle neu  
swydd**

# **Atodiad C:** Ymgynghori â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef i gefnogi cais i awdurdodi colli rhyddid

(Adran 4A(3) a 16(2)(a) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005)

Rhowch enw llawn yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

## **Nodiadau:**

Rhaid ymgynghori â'r unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef am y cais a rhaid i'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad hwn gymryd pob cam rhesymol i helpu'r unigolyn i wneud penderfyniad. Os nad oes gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef alluedd i gydsynio i golli ei ryddid, rhaid rhoi'r cyfle iddo gyfrannu at yr achos, ac i fynegi ei farn a'i ddymuniadau, i helpu'r llys i benderfynu ynghylch a fyddai colli rhyddid er ei les pennaf.

Mae pennod 3 o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cynnwys arweiniad ymarferol ar ymgynghori ac annog cyfranogiad.

Dylai'r sawl a fydd yn cynnal yr ymgynghoriad fod yn rhywun sy'n adnabod yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ac sydd yn y sefyllfa orau i fynegi ei ddymuniadau a'i farn. Gallai fod yn berthynas neu'n ffrind agos, neu rywun y mae'r unigolyn wedi'i ddewis yn flaenorol i weithredu ar ei ran (atwrnai er enghraifft). Os nad oes neb addas ar gael, dylid penodi IMCA (Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol) neu eiriolwr tebyg neu annibynnol arall i gyflawni'r rôl.

## **1. Manylion y sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad**

Mr.    Mrs.    Miss    Ms.    Arall \_\_\_\_\_

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

## 2. Datganiad gan y sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad

Disgrifiwch eich perthynas â'r unigolyn

Ers faint rydych chi'n ei adnabod?

Dyddiad ymgynghori

D	D	M	M	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---

(a) A wnewch chi gadarnhau eich bod wedi esbonio wrth yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef:

- (i) bod y ceisydd yn gwneud cais i lys;
- (ii) bod y cais yn ymwneud ag ystyried a yw'r unigolyn heb alluedd i wneud penderfyniadau am ei ofal a'i breswyliaeth ac a ddylid awdurdodi colli rhyddid mewn perthynas â'r trefniadau a nodir yn y cynllun gofal;
- (iii) beth yw'r trefniadau arfaethedig o dan y gorchymyn a geisir;
- (iv) bod gan yr unigolyn yr hawl i fynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig a'r cais, ac y bydd yr unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad yn sicrhau bod y llys yn cael gwybod am y rhain;
- (v) bod gan yr unigolyn hawl i geisio cymryd rhan yn yr achos drwy gael ymuno fel parti neu fel arall, beth mae hynny'n ei golygu ac y bydd y sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad yn sicrhau bod y llys yn cael gwybod am unrhyw gais o'r fath;
- (vi) bod y sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad yn gallu'i helpu i gael cyngor a chymorth os nad yw'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig yn y cais.

Rhowch fanylion



(b) A wnaeth yr unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef fynegi unrhyw farn, ddymuniadau neu deimladau yng nghyswllt y cais a'r colli rhyddid sydd wedi digwydd neu sy'n cael ei gynnig?

Do

Naddo

Os Do, rhowch y manylion a'r ffordd y mynegwyd y farn honno os yw'n briodol

(c) Ydy'r unigolyn yn dymuno cymryd rhan yn yr achos?

Ydy

Nac ydy

Os Ydy, esboniwch ym mha ffordd.

(d) Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddymuniadau, teimladau neu gredoau (gan gynnwys credoau crefyddol, diwylliannol a moesol y sawl y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef) a gwerthoedd ar hyn o bryd neu yn y gorffennol y bydd yn rhaid eu hystyried cyn y bydd y llys yn awdurdodi colli rhyddid?

Ydw

Nac ydw

Os Ydw, rhowch fanylion; dylech gynnwys yn benodol unrhyw ddatganiadau llafar neu ysgrifenedig perthnasol a wnaed neu farn a fynegwyd pan oedd gan yr unigolyn alluedd. Nodwch unrhyw gredoau a gwerthoedd a allai ddylanwadu ar y penderfyniad petai ganddo alluedd ac unrhyw ffactorau eraill y byddai'n debygol o'u hystyried petai'n gallu gwneud hynny.

(e) Darparwch unrhyw wybodaeth arall sydd yn eich barn chi yn berthnasol i'r llys.

### 3. Datganiad gwirionedd

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn yr atodiad hwn yn wir.

**Llofnod**

**Enw**

**Dyddiad**

**Enw'r  
sefydliad**

**Safle neu  
swydd**

# Rhestr wirio ar gyfer llenwi ffurflen

## COPDL10 ar gyfer colli rhyddid a awdurdodir gan Lys

Dylid llenwi pob cwestiwn ar y ffurflen, neu dylid nodi nad oes gwybodaeth ar gael. Gallai peidio â darparu'r wybodaeth y mae'r llys ei hangen arwain at oedi diangen gyda'r achos.

Rhaid i gais ar wahân gael ei wneud ar gyfer pob unigolyn y ceisir awdurdodiad colli rhyddid ar ei gyfer.

### Gwnewch yn siŵr fod y ffurflenni canlynol wedi cael eu llenwi:

- COPDL10** Cais o dan adran 4A(3) a 16(2)(a) o DDeddf Galluedd Meddyliol 2005 i awdurdodi colli rhyddid
- Atodiad A** Tystiolaeth i gefnogi cais o dan adran 4A(3) a 16(2)(a) o DDeddf Galluedd Meddyliol 2005 i awdurdodi colli rhyddid
- Atodiad B** Ymgynghori â phobl sydd â diddordeb mewn cais o dan adran 4A(3) a 16(2)(a) o DDeddf Galluedd Meddyliol 2005 i awdurdodi colli rhyddid
- Atodiad C** Ymgynghoriad â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ynghylch cais o dan adran 4A(3) a 16(2)(a) o DDeddf Galluedd Meddyliol 2005 i awdurdodi colli rhyddid.

### Rhaid i chi ddarparu'r canlynol hefyd:

- COP3 Tystiolaeth o alluedd
- Asesiad Iechyd Meddwl
- copi o unrhyw Benderfyniad Ymlaen Llaw
- copi o unrhyw Atwrneiaeth Arhosol
- unrhyw orchmynion llys perthnasol
- Cynllun Gofal
- Asesiad Lles Pennaf
- y ffi ymgeisio

# Gwybodaeth gyffredinol am lenwi ffurflen

## COPDL10 ar gyfer colli rhyddid a awdurdodir gan Lys

Dylid defnyddio'r ffurflenni hyn i wneud ceisiadau i'r Llys Gwarchod i'r Llys awdurdodi colli rhyddid ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau domestig megis gwasanaeth cysylltu bywydau a threfniant byw â chymorth. Ni ddylid defnyddio'r ffurflenni hyn ar gyfer ceisiadau i amrywio neu derfynu awdurdodiad safonol neu frys a wnaed gan gorff goruchwyllo o dan Atodlen A1 i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

### 1. COPDL10 – Y Ffurflen Gais

- Y gorchymyn a geisir – rhaid ichi nodi yn y blwch natur y gorchymyn rydych yn ei geisio, h.y. datganiad nad oes gan y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef alluedd i wneud penderfyniadau yn ymwneud â'i ofal a'i breswyliaeth neu orchymyn ei fod er lles gorau'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef i amddifadu'r unigolyn hwnnw o'i ryddid.
- Esboniwch os gwelwch yn dda pam y credir bod y colli rhyddid arfaethedig i'w briodoli i'r wladwriaeth (*imputable to the state*). Ydy'r trefniadau gofal sy'n achosi'r colli rhyddid yn cael eu gwneud naill ai gan awdurdod lleol neu'r GIG?
- Caniatâd. Mae'r ceisiadau hyn yn dod o dan awdurdodaeth lles personol y Llys ac felly mae angen caniatâd ymhob achos.
- Dyddiad geni – Prawf fod y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn 16 oed neu hŷn.

### 2. Atodiad A – Tystiolaeth i Gefnogi'r Cais

Yn y rhan fwyaf o achosion gall y gweithiwr cymdeithasol dynodedig sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol, ac sy'n gysylltiedig â'r trefniadau gofal, lenwi'r ffurflen. Ond, os oes un neu fwy o'r ffactorau sbarduno yn berthnasol, dylai rhywun sy'n annibynnol (y mae'n dal yn bosibl iddo gael ei gyflogi gan awdurdod cyhoeddus y ceisydd) ar y gweithiwr cymdeithasol dynodedig ddarparu'r dystiolaeth.

- Pwrpas yr asesiad iechyd meddwl yw canfod a yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef wedi cael diagnosis o 'heb fod yn ei lawn bwyll', ac felly'n dod o dan gwmpas erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Gall seiciatrydd neu ymarferydd meddygol cofrestredig ddarparu'r dystiolaeth. Ni dderbynnir tystiolaeth gan weithiwr cymdeithasol neu ymarferydd anfeddygol arall a restrir yn y nodiadau i ffurflen COP3.
- Gall yr asesiad iechyd meddwl fod ar ffurf llythyr yn nodi'r diagnosis, enw'r ymarferydd a'i gymwysterau. Os nad oes modd darparu'r llythyr gwreiddiol, bydd copi wedi'i ardystio gan y ceisydd fel gwir gopi o'r gwreiddiol yn dderbyniol. Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn fwy na 12 mis oed a dylai hefyd gyfeirio at gymhwysedd yr unigolyn i gael ei amddifadu o'i ryddid.
- Mewn achosion lle nad oes tystiolaeth iechyd meddwl addas ar gael yn hwylus, yna byddai'n dderbyniol darparu'r asesiad o alluedd a'r asesiad iechyd meddwl fel un ddogfen gan ddefnyddio COP3, ond bod y dystiolaeth gyfun yn cael ei darparu gan seiciatrydd neu ymarferydd meddygol cofrestredig.
- Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn rhydd i adael? Nid yw hyn yn gysylltiedig â gallu'r unigolyn i fynegi dymuniad i adael ond ar yr hyn y byddai'r rheini â rheolaeth dros ei drefniadau gofal yn ei wneud petai'n ceisio gadael.
- Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef o dan reolaeth a goruchwyliaeth gyson? Rhwng fanylion nifer yr oriau o oruchwyliaeth ac ym mha sefyllfaoedd. Rhwng fanylion y math o reolaeth a ddefnyddir gan staff/gofalwyr heblaw am ataliad corfforol.
- Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn cael ei atal yn gorfforol neu a oes tawelydd yn cael ei ddefnyddio? Dylech ddisgrifio'r sefyllfaoedd lle y defnyddir ataliaeth gorfforol. Y math o ataliaeth, pa mor aml ac am faint o amser. Os defnyddir tawelydd, disgrifiwch y math o dawelydd a ddefnyddir.

- Ydy'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn cael ei atal rhag cael cyswllt â phobl eraill? Ni ellir defnyddio awdurdodiad i golli rhyddid i reoleiddio neu gyfyngu ar gyswllt rhwng y sawl y ceisir yr awdurdodiad ar ei gyfer ac eraill – mae hyn yn cynnwys aelodau'r teulu neu eraill sy'n rhannu trefniadau byw â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
- Datganiadau Lles Pennaf Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gyfeirio at baragraff 5.13 yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

### 3. Atodiad B - Ymgynghori â phobl sydd â diddordeb yn y cais i awdurdodi colli rhyddid.

Mae adran 4(7) o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gosod dyletswydd ar rywun sy'n gwneud penderfyniad i ymgynghori â phobl eraill sydd â diddordeb yn lles personol yr unigolyn.

Dylech ymgynghori â:

- (a) unrhyw un sydd wedi derbyn atwrneiaeth arhosol a roddwyd gan yr unigolyn;
- (b) unrhyw ddirprwy a benodwyd ar gyfer yr unigolyn gan y llys;

ac, os oes modd, gydag o leiaf tri unigolyn o'r categorïau canlynol:

- (c) unrhyw un sydd wedi'i enwi gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef fel rhywun i ymgynghori ag ef ar faterion a godir gan y cais; a
- (d) unrhyw un sy'n gysylltiedig â gofalu am yr unigolyn neu sydd â diddordeb yn ei les

Rhaid i chi ddweud wrth y bobl y byddwch yn ymgynghori â nhw

- (a) bod y ceisydd yn gwneud cais i lys;
- (b) bod y cais yn ymwneud ag ystyried a yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef heb alluedd i wneud penderfyniadau am ei ofal a'i breswyliaeth ac a ddylai gael ei amddifadu o'i ryddid mewn perthynas â'r trefniadau a nodir yn y cynllun gofal;
- (c) beth yw'r trefniadau arfaethedig o dan y gorchymyn a geisir.

a'ch bod o dan ddyletswydd i ddweud wrth yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef:

- (d) bod ganddo hawl i fynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig a'r cais, ac y bydd yr unigolyn sy'n cynnal yr ymgynghoriad gydag ef yn sicrhau bod y llys yn cael gwybod am y rhain;
- (e) bod ganddo hawl i geisio cymryd rhan yn yr achos drwy gael ymuno fel parti neu fel arall, beth mae hynny'n ei golygu ac y bydd y sawl sy'n ymgynghori ag ef yn sicrhau bod y llys yn cael gwybod am unrhyw gais o'r fath;
- (f) bod y sawl sy'n ymgynghori ag ef yn gallu'i helpu i gael cyngor a chymorth os nad yw'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig yn y cais.

Os bydd y sawl y byddwch yn ymgynghori ag ef yn mynegi unrhyw farn am y cais neu'r colli rhyddid arfaethedig, dylech ddarparu manylion, gan gynnwys atodi datganiadau.

#### 4. Atodiad C

Defnyddir Atodiad C Ymgynghori â'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef i roi gwybod i'r llys bod rhywun wedi ymgynghori â'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef ynghylch y cais.

Dylai'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad fod yn rhywun sy'n adnabod yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef ac sydd yn y sefyllfa orau i fynegi ei farn a'i ddymuniadau. Gall fod yn berthynas neu'n ffrind agos neu yn rhywun sydd wedi'i ddewis yn flaenorol gan yr unigolyn i weithredu ar ei ran (er enghraifft atwrnai).

Os nad oes neb ar gael, gall y gweithiwr cymdeithasol dynodedig gynnal yr ymgynghoriad a llenwi'r ffurflen, Ond lle y bo'n briodol, dylai IMCA (Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol) neu eiriolwr annibynnol arall gael ei benodi i gynorthwyo.

Rhaid ymgynghori â'r unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef am y cais a rhaid i'r sawl sy'n cynnal yr ymgynghoriad gymryd pob cam rhesymol i helpu'r unigolyn i wneud penderfyniad. Os nad oes gan yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef alluedd i gydsynio i golli ei ryddid, rhaid rhoi'r cyfle iddo gyfrannu at yr achos, ac i fynegi ei farn a'i ddymuniadau, i helpu'r llys i benderfynu ynghylch a fyddai colli rhyddid er ei les pennaf.

Mae pennod 3 o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cynnwys arweiniad ymarferol ar ymgynghori ac annog cyfranogiad.

# Cais i awdurdodi colli rhyddid

(adran 4A(3) a 16(2)(a) o Ddeddf Galluedd Meddylol 2005)

Rhaid i'ch cais ateb y materion canlynol, naill ai yng nghorff y ffurflen cais neu drwy ddogfennau wedi'u hatodi.

Oni ddarperir y wybodaeth ofynnol efallai na fydd yn addas delio â'r cais o dan y broses sydd wedi'i symleiddio ar gyfer rhoi awdurdodiad i amddifadu unigolyn o'i ryddid o dan drefniadau gofal presennol neu barhaus.

## Y wybodaeth sy'n ofynnol:

1. A oes unrhyw resymau dros <b>frys</b> arbennig ar gyfer penderfynu ar y cais?	<input type="checkbox"/> Oes	<input type="checkbox"/> Nac oes
2. Ydych chi wedi cadarnhau bod 'P' (y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef) yn 16 oed neu'n hŷn ac nad yw'n anghymwys i gollu ei ryddid o dan Ddeddf 2005?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
3. Ydych chi wedi atodi'r dystiolaeth feddygol berthnasol yn nodi ar ba sail y dywedir nad yw 'P' yn ei lawn bwyll?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
4. Ydych chi wedi atodi'r dystiolaeth feddygol berthnasol yn nodi ar ba sail y dywedir nad oes gan 'P' alluedd i gydsynio i'r trefniadau gofal?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
5. Ydych chi wedi atodi copi o gynllun gofal 'P'?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
6. Ydy'r cynllun gofal yn nodi natur trefniadau gofal 'P' a pham y dywedir eu bod neu y gallant fod yn gyfystyr â cholli rhyddid?	<input type="checkbox"/> Ydy	<input type="checkbox"/> Nac ydy
7. Ydych chi wedi nodi ar ba sail y dywedir bod y trefniadau i'w priodoli i'r wladwriaeth neu y gellir eu priodoli i'r wladwriaeth?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
8. Ydych chi wedi atodi asesiad lles pennaf?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
9. A oes camau wedi'u cymryd i ymgynghori â 'P' a phob unigolyn perthnasol arall ym mywyd 'P' (fe ddylid eu henwi) ynghylch y cais ac i gael gwybod beth yw eu dymuniadau, eu teimladau a'u barn?	<input type="checkbox"/> Oes	<input type="checkbox"/> Nac oes
10. Ydych chi wedi cofnodi yn Atodiad B unrhyw ddymuniadau neu deimladau perthnasol sydd wedi'u mynegi gan 'P' ac unrhyw farn a fynegwyd gan unrhyw unigolyn perthnasol?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
11. Ydych chi wedi darparu manylion unrhyw benderfyniad ymlaen llaw perthnasol sydd wedi'i wneud gan 'P' ac unrhyw benderfyniadau perthnasol o dan atwrnai arhosol neu gan ddirprwy 'P' (a ddylai gael ei enwi)?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
12. Ydych chi wedi enwi rhywun a allai fod yn gyfaill cyfreitha i'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
13. Ydych chi wedi rhestru unrhyw ffactorau a ddylai gael eu dwyn yn benodol i sylw'r llys (a'r ceisydd o dan ddyletswydd benodol i ddatgelu'n llawn ac yn ddidwyll i'r llys yr holl ffeithiau a materion a all ddylanwadu ar benderfyniad y llys), sef ffactorau: a) y mae angen i farnwr graffu arnynt yn benodol; neu b) sy'n awgrymu nad yw'r trefniadau mewn gwirionedd er lles pennaf 'P' neu yr opsiwn lleiaf cyfyngol; neu c) sydd fel arall yn dangos na ddylid gwneud y gorchymyn a geisir.	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw
14. Ydych chi wedi cynnwys y ffi?	<input type="checkbox"/> Ydw	<input type="checkbox"/> Nac ydw

**Gall y sbardunau canlynol awgrymu nad yw eich cais yn addas i gael ei wneud o dan y broses wedi'i symleiddio ac efallai y bydd angen gwrandawriad llafar i ddechrau.**

1. Unrhyw wrthwynebiad gan y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu gan unrhyw un arall i unrhyw rai o'r materion a restrir yn 2 - 8 uchod
2. Unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw rai o'r gofynion y cyfeirir atynt yn 9 uchod
3. Unrhyw bryderon sy'n deillio o wybodaeth a ddarparwyd yn unol â 10, 12 ac 13 uchod.
4. Unrhyw wrthwynebiad gan y sawl y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef.
5. Unrhyw wrthdaro posibl ag unrhyw benderfyniad o'r math y cyfeirir ato yn 11 uchod.
6. Os yw'r llys, am unrhyw reswm arall, yn credu bod gwrandawriad llafar yn angenrheidiol neu'n briodol